



ECAD6006C

Blwyddyn 3

20.11.2018

Kara Lewis a Catrin Evans-Thomas

NOD Y WERS HEDDIW ...

- Edrych ar wallau cyffredin.
- Rhagenwau- adolygu a chywiro i ymarfer.

BETH ALLWCH CHI DDWEUD AM...

ei (g)

ei (b)

eu

ein

eich

dy

fy



Rhagenwau

PAM EU BOD NHW'N BWYSIG I NI?

➔ Blwyddyn 1	↔ Blwyddyn 2
Mae plant yn gallu:	Mae plant yn gallu:
defnyddio cwestiynau amrywiol, e.e. 'Pwy?', 'Beth?', 'Pam?', 'Pryd?' a 'Sut?', at ddibenion amrywiol ac i gadarnhau dealltwriaeth ❖	paratoi a gofyn cwestiynau amrywiol, e.e. 'Pwy?', 'Beth?', 'Pam?', 'Pryd?' a 'Sut?', at ddibenion amrywiol ac i gadarnhau dealltwriaeth ❖
defnyddio cyflythreniad ac odl ❖	defnyddio cyflythreniad ac odl mewn ystod o gyd-destunau ❖
defnyddio rhythm ac odl i greu llafarganeuon, odlau a cherddi syml ❖	defnyddio rhythm ac odl i greu llafarganeuon, odlau a cherddi mwy cymhleth ❖
dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau, e.e. <i>y ferch</i>	defnyddio ambell dreigladd y maent wedi ei ymarfer ar lafar, e.e. <i>y bêl, fy mag, i'r dref</i>
gwrando ar eraill, â sylw cynyddol, gan ymateb yn briodol fel arfer, e.e. <i>dilyn cyfarwyddiadau'n gywir</i>	gwrando ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen

Cwricwlwm Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Fframwaith y Cyfnod Sylfaen

(Diwygiedig 2015)

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Cwricwlwm Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg
Cyfnodau Allweddol 2-4

...

Llinyn: Llafaredd



Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir fel arfer, e.e. <i>ar ben</i>	defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir, e.e. <i>fy nghalon</i>	treiglo'n gywir fel rheol ar ôl y rhan fwyaf o'r arddodiaid a'r rhagenwau, e.e. <i>am funud, dy fam</i>	treiglo'n gywir ar ôl arddodiaid a rhagenwau gan ddechrau dod yn ymwybodol nad yw pob llythyren yn dilyn y drefn arferol, e.e. <i>y llinell</i>

CYMRAEG AIL IAITH

Cyfnodau Allweddol 2–4



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Cymraeg ail iaith

yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio



Ysgrifennu

Sgiliau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

1. ddefnyddio nodweddion y ffurfiau a ddevisir
2. defnyddio a chysylltu amrywiaeth o ymadroddion, cwestiynau a brawddegau yn gywir, gan gadarnhau'r gystrawen Gymraeg, a defnyddio paragraffau lle bo'n briodol
3. defnyddio atalnodi i gyfleu ystyr priodol gan gynnwys:

5. meithrin cywirdeb trwy:

- ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson)
- negyddu brawddegau
- defnyddio arddodiaid
- treiglo
- defnyddio cenedl enwau

6. sillafu geiriau syml yn gywir a gwirio'u sillafu trwy ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys TGCh





BETH YW RHAGENW?

Gair a ddefnyddir yn lle enw

Enghreifftiau?



DYMA RAI...

Fi

Ti

Fe

Hi

Ni

Chi

Nhw

Fy

Dy

Ei

Ei

Ein

Eich

eu

BLE MAE'R RHAGENW?



Gwelais i'r ferch yn y dre ddoe.
Rhoion ni'r arian i'w thad.
Mae John a finnau'n ffrindiau mawr.
Arno fe mae'r bai.
Rydw i ar fy mhen fy hunan.
Dyna eu heglwys ar y teledu.
Mae'r pennaeth yn dod i'th dosbarth.
Ni sy'n siarad y prynhawn 'ma.
Tydi a wnaeth y wyrth o Grist fab Duw.
Dyna'r ferch a'm bwrodd i.
Mae fy nosbarth yn wych eleni.
Aethon ni i'r dre ac aeth hithau i'r sinema.

BLE MAE'R RHAGEN'?



Gwelais **i**'r ferch yn y dre ddoe.

Rhoion **ni**'r arian i' **w** thad.

Mae John a **finnau**'n ffrindiau mawr.

Arno **fe** mae'r bai.

Rydw i ar **fy** mhen **fy hunan**.

Dyna **eu** heglwys ar y teledu.

Mae'r pennaeth yn dod i' **th** dosbarth.

Ni sy'n siarad y prynhawn 'ma.

Tydi a wnaeth y wyrth o Grist fab Duw.

Dyna'r ferch a' **m** bwrodd **i**.

Mae **fy** nosbarth yn wych eleni.

Aethon **ni** i'r dre ac aeth **hithau** i'r sinema.

4. Rhagenw

Annibynnol

Maent yn gallu bodoli mewn brawddeg ar eu pennau eu hunain.

syml

fi	ni
ti	chi
ef hi	nhw

dwbl

myfi	nyni
tydi	chwychwi
efe/hyhi	hwythwy

Defnyddir y rhagenwau hyn er mwyn pwyslais, er enghraifft:
'Pwy biau hwn?' 'Myfi'

Rhagenw

Gair yn lle enw yw rhagenw.

cysylltiol

minnau	ninnau
tithau	chwithau
yntau/hithau	hwythau

Mae'n rhaid i'r rhagenwau hyn fod yn gysylltiedig â phersonau, neu enwau, neu ragenwau eraill:

Sian: Fe fum i yn y disgo.
Sion: A finnau

Dibynnol

Dyma'r rhagenwau sy'n dibynnu ar eiriau eraill yn y frawddeg.

blaen

fy	ein
dy	eich
ei	eu

ol

i	ni
ti/di	chi
ef/hi	nhw/hwy

mewnol

i'm	i'n
i'th	i'ch
o'i/i'w	o'u/i'w



EI NEU **EU**

EI

Mae ei yn sôn am rywbeth sy'n
perthyn i un person.



neu



EU


Mae **eu** yn sôn am rywbeth sy'n perthyn i **fwy** nag un person.



*e.e. eu llyfrau nhw, eu dillad nhw,
eu coesau nhw*

EI

Mae ei gwrywaidd yn achosi treigladau meddal.




ei ben e

ei drwyn e

ei geg e

Mae ei benywaidd yn achosi treigladau llaes.



ei phen hi

ei thrwyn hi

ei cheg hi



OND:

ei gilydd

...sy'n gywir bob amser, hyd yn oed os ydyn ni'n siarad am fwy nag un person.

e.e. Asesodd y disgyblion waith ei gilydd.

Edrychodd y plant ar ei gilydd yn syn.

YMARFER - CYWIRWCH Y CANLYNOL:

1. Rhoddodd y ferch ei gas pensiliau yn ei fag.
2. Roedd y plant wrth ei bodd gyda gwersi Addysg Gorfforol.
3. Gweithiodd Siôn yn galed ar eu gwaith cartref.
4. Roedd llyfrau'r disgyblion yn ei bagiau.
5. Torrodd y bachgen ei choes wrth ddisgyn oddi ar ei beic.
6. Edrychodd y ddau fachgen yn gas ar eu gilydd.
7. Cuddiodd y ferch ei far o siocled yn ei gwpwrdd rhag ofn i'w brawd ei ddwyn.
8. Anghofiodd y plant ei cotiau glaw pan aethant i wersylla gyda'r ysgol.
9. Gwisgodd y bachgen ei chot amdano.
10. Bydd blwyddyn 8 yn cael ei gwobrau cyn diwedd yr wythnos.

YMARFER - CYWIRWCH Y CANLYNOL:

1. Rhoddodd y ferch ei **ch**as pensiliau yn ei **b**ag.
2. Roedd y plant wrth **eu** bodd gyda gwersi Addysg Gorfforol.
3. Gweithiodd Siôn yn galed ar **ei** **w**aith cartref.
4. Roedd llyfrau'r disgyblion yn **eu** bagiau.
5. Torrodd y bachgen ei **g**oes wrth ddisgyn oddi ar ei **f**aic.
6. Edrychodd y ddau fachgen yn gas ar **ei** gilydd.
7. Cuddiodd y ferch ei far o siocled yn ei **ch**wpwrdd rhag ofn i'w brawd ei ddwyn.
8. Anghofiodd y plant **eu** **c**otiau glaw pan aethant i wersylla gyda'r ysgol.
9. Gwisgodd y bachgen ei **g**ot amdano.
10. Bydd blwyddyn 8 yn cael **eu** gwobrau cyn diwedd yr wythnos.

ÔL- GYFEIRIO

Darllenwch yr erthyglau ac uwch-oleuwch bob rhagenw gan nodi at beth yn union y mae'r rhagenw'n cyfeirio.

ee.

Llythyr (eg)

Mae'r llythyr a gafodd ei lofnodi gan Brif Weinidog Prydain, Theresa May wedi cael ei roi i Lywydd y Cyngor Ewropeaidd...

Llythyr (eg)

ÔL-GYFEIRIO

- Mae'r cynllun yn darparu llyfrau ac awduron i fechgyn o bob oed y gellir ei defnyddio gan rieni.
- Mae Mari'n rhyngweithio'n effeithiol gyda'i chyfoedion wrth rannu gydag eraill a'i pharchu.
- Mae'n bwysig bod Jac yn herio'i hun yn ystod ei gwaith.



Kahoot!



Wordwall

<https://wordwall.co.uk/play/195/593/235>



- Rhedodd Siân yn gyflym rhag iddi golli ei thrên i Gaerdydd.
- Roedd Elen ac Eleri yn anhapus gyda'u marciau yn y prawf.
- Gweithiodd Aled yn arbennig wrth baratoi ei gyflwyniad.
- Roedd y wers yn rhy arwynebol a'i chynnwys yn rhy syml.
- Mae'r Llywodraeth yn amrywio ei pholisïau.
- Mae'r dasg yn hollbwysig a'i phwrpas yn glir.
- Mae'r gliniaduron yn y cwpwrdd a'u ceblau yn y bocs.

- Roedd Elen ac Eleri yn anhapus gyda'i marciau yn y prawf.
- Penderfynodd Helen brynu anrheg Nadolig i'w gefnder.
- Penderfynodd yr athrawon beidio â gosod gwaith cartref i'w ddosbarth.
- Roedd yr adroddiad yn gynhwysfawr yn ei chyfanrwydd.
- Anghofiodd y merched ei cit pêl-droed.
- Mae'r ffeil yn gyflawn a'i drefn yn glir.
- Roedd y gwasanaeth yn wych a'i chynnwys yn berthnasol.

Gweithgaredd Ilafar: Chwarae Rôl

Noson Rieni Ffug

Mewn parau, byddwch yn cymryd eich tro i chwarae rhan yr athro a'r rhiant mewn noson rieni.

Mae gan y rhiant efeilliaid yn yr un dosbarth: Gethin a Megan.

Bydd disgwyl i'r athro drafod y ddau ddisgybl ar wahân (cofiwch y treigladau!)

Bydd disgwyl i'r rhiant ofyn cwestiynau i'r athro.



Amrywiwch
eich geirfa a
defnyddiwch
ystod o
ansoddeiriau.

tawel	swnllyd
cyflym	gwarthus
taclus	gwyllt
gwreiddiol	anniben
gwyh	digywilydd
bendigedig	anystywallt
arbennig	amhosibl
ardderchog	anghwrtais
rhagorol	blêr
deallus	amharod
parod	anfoesgar
syml	siaradus
penigamp	ffwdanus
ymroddgar	creulon
diwyd	peryglus
cwrtais	drygionus
cyfeillgar	annerbyniol
cymwynasgar	diflas
serchog	trychinebus
cyffrous	trafferthus
gwerthfawr	afreolus
allblyg	chwithig
mewnblyg	annifyr
annibynnol	aflonydd
dibynadwy	anhrefnus

Enw : Mared Llywelyn

Dosbarth : Teifi (Blwyddyn 5 a 6)

Tymor : Y Nadolig

Gweithgareddau'r tymor:

- Thema'r tymor - **Arwyr**
- Astudio'r Rhyfel Byd Cyntaf – arwyr o Gymru megis Hedd Wyn
- Taith i gofgolofn rhyfel y dref – cynnal gwasanaeth coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf
- Prosiect Dosbarth – llunio arddangosfa pabi coch
- Ymweliad gan Shane Williams – trafod ei yrfa rygbi a chynnal gweithdy rygbi

Cryfderau – darllen, cydweithio ag eraill

Angen eu targedu – mathemateg pen, atalnodi

Enw : Iestyn Gwyn

Dosbarth : Tywi (Blwyddyn 1 a 2)

Tymor : Y Nadolig

Gweithgareddau'r tymor:

- Thema'r tymor – **Albwm y Teulu**
- Trafod pwy sydd yn ein teulu – llunio coeden deuluol, a'i chyflwyno i'r dosbarth
- Creu portread o aelod o'r teulu
- Darllen llyfr “Fy ngheulu gwallgof i” gan Mari Parri
- Sgiliau rhifedd – cronoleg a mesur amser

Cryfderau – cyfrannu at drafodaethau dosbarth, galw tablau i gof (2, 5 a 10)

Angen eu targedu – llawysgrifen, canolbwyntio ar gyfarwyddiadau

Bachgen	Gair	Merch
ei gynnydd	cynnydd	ei chynnydd
ei botensial	potensial	ei photensial
ei allu	gallu	ei gallu
ei gyrhaeddiad	cyrhaeddiad	ei chyrhaeddiad
ei ddatblygiad	datblygiad	ei datblygiad
ei ddarllen	darllen	ei darllen
ei ysgrifennu	ysgrifennu	ei hysgrifennu
ei sgiliau	sgiliau	ei sgiliau
ei lefelau	lefelau	ei lefelau
ei ymdrech	ymdrech	ei hymdrech
ei fod	bod	ei bod
ei waith	gwaith	ei gwaith
ei astudiaethau	astudiaethau	ei hastudiaethau
ei brofion	profion	ei phrofion
ei dargedau	targedau	ei thargedau
ei les	lles	ei lles
ei iechyd	iechyd	ei hiechyd
ei foddhad	boddhad	ei boddhad



5 munud i baratoi